# Elbasvir–grazoprevir i drin hepatitis C cronig

26 Hydref 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Elbasvir–grazoprevir (Zepatier) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â rhai mathau (a elwir yn enoteipiau) o hepatitis C cronig. Caiff ei gymryd weithiau gyda ribavirin. Gweler tabl 1.

**Tabl 1 Elbasvir–grazoprevir gyda neu heb ribavirin ar gyfer oedolion sydd â hepatitis C cronig**

| Math o hepatitis C | Triniaeth a argymhellir gan NICE | Hyd y driniaeth |
|---|---|---|
| 1a | Elbasvir–grazoprevir | 12 wythnos. |
| | Elbasvir–grazoprevir a ribavirin | Gellir ystyried 16 wythnos os yw lefel y feirws yn y gwaed yn uchel ar ddechrau'r driniaeth, neu os gallai'r feirws effeithio ar ba mor dda y mae elbasvir yn gweithio. |
| 1b | Elbasvir–grazoprevir | 12 wythnos. |
| 4 | Elbasvir–grazoprevir | 12 wythnos. |
| | Elbasvir–grazoprevir a ribavirin | Gellir ystyried 16 wythnos os yw lefel y feirws yn y gwaed yn uchel ar ddechrau'r driniaeth. |

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych enoteip 1 neu 4 o hepatitis C cronig a bod eich tîm gofal iechyd yn credu mai elbasvir–grazoprevir yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai Elbasvir–grazoprevir fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Mae hepatitis C yn afiechyd o'r iau a achosir gan firws hepatitis C. Mae rhai sy'n cael eu heintio â hepatitis C yn gwella'n gyflym heb driniaeth, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn datblygu haint hirbarhaol; fe'i gelwir yn hepatitis C cronig. Gall pobl sydd â hepatitis C cronig deimlo'n iach am nifer o flynyddoedd, ond mae'r feirws yn achosi niwed i'r iau a gall wneud iddynt deimlo'n sâl.

Mae Elbasvir–grazoprevir yn gyfuniad o 2 gyffur (elbasvir a grazoprevir) mewn tabled unigol a ddefnyddir i drin genoteipiau 1 a 4 o'r firws hepatitis C. Caiff ei gymryd weithiau gyda chyffur arall, o'r enw ribavirin, a gall gael gwared ar y firws mewn pobl nad ydynt erioed wedi cael triniaeth neu sydd wedi cael triniaeth o'r blaen na gafodd wared ar y firws.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 01425 481 320
- Yr Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 020 7089 6221
- HIV-i-Base, 0808 800 6013
- Liver4Life, 0800 074 3494
- Terrence Higgins Trust, 0808 802 1221

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2189-8